**Egwyddorion Strategaeth Ymwneud a Chyfathrebu â Budd-ddeiliaid Caffael**

**Pwrpas**

Mae Tîm Caffael y Brifysgol yn hyrwyddo proffesiynoldeb wrth gaffael er mwyn cefnogi staff y brifysgol wrth iddynt ddelio â chyflenwyr ac er mwyn sicrhau bod prosesau a threfniadau caffael yn briodol ac yn effeithiol a thrwy hynny annog arloesedd, hyrwyddo cynaliadwyedd ac, yn y pen draw, sicrhau gwerth am arian. Mae'r Strategaeth Ymwneud a Chyfathrebu â Budd-ddeiliaid yn sicrhau bod yr holl fudd-ddeiliaid allweddol a nodir yn gwybod am y swyddogaeth a gyflawnir gan y Tîm Caffael a sut y dosberthir y wybodaeth allweddol hon.

**Trosolwg**

Bydd y Strategaeth Ymwneud a Chyfathrebu â Budd-ddeiliaid hon yn cefnogi amcanion a chyflwyno Strategaeth Gaffael y Brifysgol.

**Budd-ddeiliaid**

Mae budd-ddeiliaid caffael yn bennaf yn cynnwys adrannau allweddol y brifysgol a'r prynwyr yn yr adrannau hynny. Mae grwpiau budd-ddeiliaid eraill wedi'u cynnwys yn y rhestr ganlynol:

- Prynwyr caffaeliadau allweddol/strategol
  - Gwasanaethau Eiddo a Champws
  - Gwasanaethau TG
  - Cysylltiadau Corfforaethol a Marchnata
  - Gwasanaeth Llyfrgell ac Archifau
  - Adnoddau Dynol
- Prynwyr caffaeliadau arferol - Canolfannau Cyllid Gweithrediadol
- Swyddfa Gyllid Ganolog
- HEFCW
- North Western Universities Purchasing Consortium
- Gwerth Cymru
- The National Procurement Service
- Prifysgolion a Cholegau eraill
- Cyrff cyhoeddus eraill
- Cyflenwyr